

Strategaeth Digwyddiadau, 2018-23

Amgueddfa Cymru

Mared Maggs a Nia Williams, Ebrill 2018

Contents

Strategaeth Digwyddiadau, 2018-23	1
1. Crynodeb.....	3
2. Diffiniad a Chyd-destun	4
2.1. Beth yw ystyr digwyddiad i ni?.....	4
2.2. Pam mae digwyddiadau'n bwysig i Amgueddfa Cymru?.....	4
2.3. Sut mae'r strategaeth yn cefnogi Gweledigaeth Amgueddfa Cymru?	5
2.4. Beth yw'r heriau?	6
2.4.1. Adnoddau cyfyngedig sydd gennym (<i>ariannol a phobl</i>).....	6
2.4.2 <i>Nid ydym yn cyrraedd ein holl gynulleidfaoedd ar hyn o bryd</i>	6
2.4.3 Ychydig o ddata sydd gennym, ac nid oes gennym System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM).....	7
2.4.4 <i>Mae ein systemau gwneud penderfyniadau yn fewnblyg</i>	7
2.4.5. <i>Mae pob Amgueddfa'n wahanol ac mae cyfyngiadau o ran seilwaith safleoedd</i>	8
2.4.6. <i>Nid yw ein systemau gwerthuso yn ddigon trylwyr</i>	8
2.5. Dull datblygu'r strategaeth hon	8
3. Nodau ac Amcanion	8
Cynllun Gweithredu (gweler isod).....	10
4. Casgliadau	10
Cynllun Gweithredu.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 1: Staff a gymerodd ran yn y gweithdai.....	11
Atodiad 2: Rhestr o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth ...	11

1. Crynodeb

Bydd y strategaeth yn amlinellu sut bydd Amgueddfa Cymru yn datblygu ei henw da fel darparwr digwyddiadau o bwys gyda brand cryf a phwrpas clir. Mae'n cyflwyno cyfeiriad clir ar gyfer datblygu portffolio cytbwys a chynaliadwy o ddigwyddiadau a gwyliau gan Amgueddfa Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n cefnogi Gweledigaeth Amgueddfa Cymru, 'ysbrydoli pobl, newid bywydau', ac yn dangos sut y gall rhaglenni digwyddiadau integredig sbarduno'r cyhoedd i gymryd rhan a chefnogi llesiant pobl a chymunedau Cymru. Hefyd, mae'n dangos cyfraniad digwyddiadau at ffyniant Amgueddfa Cymru a Chymru o ran creu incwm, gwella proffil a chefnogi twristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r strategaeth yn sail i ni adeiladu ar lwyddiant y gorffennol a dysgu o arferion da. Ei nod yw ymgysylltu, llywio a chynorthwyo pawb sy'n datblygu ac yn darparu digwyddiadau. Mae'n crynhoi sut fyddwn ni'n meithrin ein henw da fel darparwr digwyddiadau mawr gyda brandiau cryf ac amcanion clir. Trwy ddatblygu meini prawf penodol ar gyfer digwyddiadau o safon gyson ledled Amgueddfa Cymru, byddwn yn symleiddio'r rhaglen ddigwyddiadau, gan wella ein dull o ddatblygu a chynnal digwyddiadau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu a'u cyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn ymateb i adolygiad diweddar Dr Thurley o Amgueddfa Cymru, strategaeth *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru a *Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru (2010-20)* Llywodraeth Cymru. Mae cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg¹ ac integreiddio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015² yn rhan annatod o'r strategaeth.

¹ <https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/>

² Mae Amgueddfa Cymru yn gweithio tuag at amcanion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a mentrau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. Am fanylion, ewch i <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

2. Diffiniad a Chyd-destun

2.1. Beth yw ystyr digwyddiad i ni?

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar raglen ddigwyddiadau Amgueddfa Cymru ac yn cynnwys y canlynol:

- Digwyddiadau proffil uchel rheolaidd neu untro
 - er enghraifft: gwyliau, digwyddiadau ail-greu, digwyddiadau pen-blwydd a rhaglenni fin nos
- Digwyddiadau i gefnogi addysg
 - er enghraifft: sgysiau, teithiau, cyrsiau a rhaglenni gwyliau
- Ymgyrchoedd a digwyddiadau cenedlaethol
 - er enghraifft: Eisteddfodau, Gŵyl Amgueddfeydd Cymru ac Amgueddfeydd Liw Nos
- Dathliadau a digwyddiadau cymunedol
 - er enghraifft: Mis Hanes LGBT, Mis Hanes Pobl Dduon a Diwali
- Digwyddiadau i gefnogi twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru
 - er enghraifft digwyddiadau i gefnogi Croeso Cymru

Yn aml iawn, mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill.

Nid yw digwyddiadau codi arian na digwyddiadau llogi cyfleusterau yn rhan o'r strategaeth hon.

2.2. Pam mae digwyddiadau'n bwysig i Amgueddfa Cymru?

Mae digwyddiadau'n gyfle i ddehongli'r casgliadau mewn ffyrdd newydd ac arloesol, ac yn rhan allweddol o arlwy craidd Amgueddfa Cymru.

Digwyddiadau:

- Ymgysylltu, addysg, difyrru
- Creu diddordeb yn Amgueddfa Cymru a hyrwyddo ein gwaith
- Cynnwys cymunedau amrywiol, partneriaid lleol a chenedlaethol
- Cynhyrchu incwm a buddion economaidd eraill
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr a chael gwared ar rwystrau sy'n atal ymgysylltu

Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r rhaglen arddangosfeydd i gynnig ystod o brofiadau a chyfleoedd cysylltiedig. Mae hyn yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac amrywiaeth y bobl sy'n defnyddio ein hamgueddfeydd. Mae cynnwys pobl a

chymunedau wrth siapio a chynnal ein digwyddiadau yn gallu annog y cyhoedd i gymryd rhan a sicrhau rhaglen fwy cytbwys a chynhwysol. Mae digwyddiadau hefyd yn cefnogi ffyniant Amgueddfa Cymru o ran creu incwm, cynyddu nifer yr ymwelwyr, gwella proffil a chefnogi twristiaeth ddiwylliannol.

Mae staff o wahanol adrannau yn cyfrannu at ddarparu'r rhaglen weithgareddau, gan gynnwys staff curadurol, cadwraeth, addysg a gwasanaethau ymwelwyr. Mae cynnal digwyddiadau yn creu cyfleoedd i staff gydweithio ar draws timoedd.

2.3. Sut mae'r strategaeth yn cefnogi Gweledigaeth Amgueddfa Cymru?

Datblygwyd y strategaeth hon yn unol â Gweledigaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer 2015-25 ac fel ymateb iddi, i fod yn sefydliad sy'n ysbrydoli pobl ac yn newid bywydau. Mae'r Weledigaeth yn adlewyrchu'r dyhead i sicrhau bod traddodiadau diwylliannol a deallusol Cymru wrth wraidd ein gwaith, a datblygu patrwm newydd i amgueddfeydd cenedlaethol ledled y byd. Ein Pwrpas, sy'n ategu'r Weledigaeth hon, yw 'trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd'. Mae nodau ac amcanion y strategaeth hon yn ceisio cefnogi'r pedwar ymrwymiad allweddol a nodir yn y Weledigaeth: Ffynnu, Profiad, Dysgu a Chyfranogi.

Mae'r Strategaeth yn dangos sut y gall rhaglenni digwyddiadau integredig sbarduno'r cyhoedd i gymryd rhan a chefnogi llesiant pobl a chymunedau Cymru. Mae hefyd yn dangos cyfraniad digwyddiadau at ffyniant Amgueddfa Cymru a'n gwlad yn gyffredinol o ran cynhyrchu incwm, gwella proffil a chefnogi twristiaeth ddiwylliannol. Mae'n amlinellu'r modd y byddwn ni'n datblygu ein henw da fel darparwr digwyddiadau mawr â brandiau cryf ac ymgyrchoedd marchnata a digidol clir, gyda dull mwy strategol o weithio mewn partneriaeth. Bydd y rhaglen yn gaffaeliad gwerthfawr er mwyn cefnogi cynllun aelodaeth Amgueddfa Cymru. Bydd yn denu aelodau yn seiliedig ar drafodion trwy fynediad a gostyngiadau arbennig i ddigwyddiadau.

Mae'r strategaeth yn cynnig strwythur i ni adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol a dysgu o arferion da. Ei nod yw llywio a helpu pawb sydd ynghlwm wrth ddatblygu a chyflwyno digwyddiadau. Mae'n hanfodol ein bod ni'n cysoni ein prosesau rhaglennu i ganolbwyntio ar ganlyniadau, sicrhau ansawdd cyfartal ledled yr amgueddfeydd a

dyrannu adnoddau'n briodol. Mae angen i ni sicrhau cynllunio tymor hirach a fydd yn caniatáu amser i gynllunio cynnwys a marchnata. Bydd hyn yn arwain at werthu mwy o docynnau ac yn denu rhagor i gymryd rhan, wrth i'r Amgueddfa ennill ei phlwyf fel darparwr digwyddiadau o safon uchel.

Bydd cysylltiadau ag ymgyrchoedd twristiaeth ddiwylliannol Llywodraeth Cymru, ymgyrchoedd cenedlaethol a digwyddiadau partneriaeth gyda sefydliadau allanol yn gwella wrth i ni ddatblygu mwy o ffocws a dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio meini prawf i lywio ein prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd y strategaeth yn creu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a gweithio ar draws sectorau, ac yn gwella partneriaethau proffesiynol â phenderfynwyr allweddol fel Uned Digwyddiadau Mawr Cymru a Croeso Cymru.

Mae'n strategaeth weithredol a fydd yn datblygu wrth i ni roi'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ar waith.

2.4. Beth yw'r heriau?

Mae'r strategaeth yn cydnabod ein bod ni'n wynebu sawl her fel corff sector cyhoeddus yng Nghymru – yn economaidd, yn sefydliadol ac yn wleidyddol. Yma yn Amgueddfa Cymru, mae heriau wrth drefnu digwyddiadau – o ran hyd a lled a chymhlethdodau'r profiadau a gynigir, amrywiaeth ein lleoliadau ledled Cymru, a'r ystod o gynulleidfaoedd a defnyddwyr amrywiol sydd ag anghenion gwahanol. Rydym yn cyfeirio at heriau eraill yn yr adran hon.

2.4.1. Adnoddau cyfyngedig sydd gennym (ariannol a phobl)

Fel sefydliad, nid oes gennym adnoddau ariannol i ddatblygu a chynnal ein rhaglen yn llawn ar hyn o bryd. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae hyn yn her. Yn y tymor byr, byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu'r incwm a grëir trwy'n rhaglen ddigwyddiadau a gwerthuso ein rhaglenni er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Nid oes gennym adnoddau digonol i farchnata ein digwyddiadau chwaith. Byddwn yn adolygu hyn wrth i ni ddatblygu brand Amgueddfa Cymru.

2.4.2 Nid ydym yn cyrraedd ein holl gynulleidfaoedd ar hyn o bryd

Mae ein gwaith ymchwil i gynulleidfaoedd yn awgrymu nad ydym yn cyrraedd pob cynulleidfa ar hyn o bryd, ac nad yw ein proffil ymwelwyr yn adlewyrchu amrywiaeth

cynulleidfaoedd Cymru. Mae'r corff wedi cychwyn ar daith tuag at ddemocratiaeth ddiwylliannol. I ni, mae cyfranogiad yn bwysig nid yn unig o ran y profiad a gynigiwn i'n hymwelwyr ond hefyd o ran ein ffordd fewnol o weithredu. Rydym yn y broses o ddatblygu sawl dull fydd yn gwreiddio hawliau pobl i gyfranogiad diwylliannol yn ein gwaith. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar wireddu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymhlith y mentrau hyn mae Ein Hamgueddfa, Ein Cymuned a gefnogir gan Sefydliad Paul Hamlyn a Dwylo ar Dreftadaeth a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a phobl ifanc trwy'r mentrau hyn creu cyfleoedd newydd i edrych eto ac ailwampio ein rhaglen ddigwyddiadau, yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau cymdeithasol.

Bydd y mentrau hyn yn canolbwyntio ar wreiddio Hawliau Diwylliannol yn ein dulliau gweithredu a thrwy hynny byddwn yn datblygu modelau i bobl ifanc gael bod yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau, mewn perthynas â datblygu a chynnal ein rhaglen ddigwyddiadau.

2.4.3 Ychydig o ddata sydd gennym, ac nid oes gennym System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu casglu data manwl gywir am ein hymwelwyr. Mae datblygu System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn hollbwysig os ydym am gynyddu ein sail defnyddwyr yn llwyddiannus, a datblygu deialog gyda'n defnyddwyr rheolaidd er mwyn cynyddu referniw.

2.4.4 Mae ein systemau gwneud penderfyniadau yn fewnblyg

Mae ein systemau gwneud penderfyniadau yn dueddol o ganolbwyntio gormod ar faterion mewnol, ac mae angen i ni ddatblygu dulliau mwy cyfranogol sy'n darparu'r fframweithiau i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn ein penderfyniadau. Ein pwyslais yn y tymor byr fydd denu a chynnwys pobl ifanc trwy raglen dwylo ar Dreftadaeth, a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a sicrhau bod gan bobl ifanc lais yn ein proses rhaglennu digwyddiadau. Mae angen i ni ddatblygu strategaeth Digwyddiadau mwy allblyg hefyd gan weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i amrywio cynnwys ein rhaglenni.

2.4.5. Mae pob Amgueddfa'n wahanol ac mae cyfyngiadau o ran seilwaith safleoedd

Nid oes seilwaith addas yn sawl un o'n hamgueddfeydd, sy'n cyfyngu ar ein gallu i gynnal rhaglen ddigwyddiadau uchelgeisiol a gwireddu ein dyheadau o ran cynhyrchu incwm. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau WiFi yn amrywio'n fawr yn ogystal â'r ddarpariaeth dechnegol a storfeydd. Mae lle parcio yn dal i fod yn broblem yn Sain Ffagan, ac mae heriau mynediad mewn sawl amgueddfa. Mae'r strategaeth Profiad Ymwelwyr eisoes wedi tynnu sylw at yr angen am arwyddion gwell.

2.4.6. Nid yw ein systemau gwerthuso yn ddigon trylwyr

Ychydig iawn o waith gwerthuso a wnaed. Mae meithrin sgiliau, arbenigedd a hyder ein staff yn y maes hwn yn bwysig. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi sut a phryd y byddwn ni'n datblygu fframwaith gwerthuso er mwyn llywio ein rhaglen ddigwyddiadau.

2.5. Dull datblygu'r strategaeth hon

Cynhaliwyd cyfres o weithdai ledled Amgueddfa Cymru er mwyn cynnwys staff o bob adran ac amgueddfa yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth – cymerodd 32% o staff Amgueddfa Cymru ran yn y gweithdai hyn (mae'r rhestr lawn yn Atodiad 1). Mae eu cyfraniad wedi helpu i siapia syniadau ac amcanion y Cynllun Gweithredu.

Cafwyd sgysiau manwl ag ystod o aelodau staff a rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth hon ac er mwyn sicrhau y cafwyd cyfraniad arbenigol gan adrannau sy'n allweddol i gyflwyno digwyddiadau yn Amgueddfa Cymru. Hefyd, defnyddiwyd strategaethau a pholisïau canlynol Amgueddfa Cymru i lywio'r strategaeth hon: Strategaeth Gydraddoldeb, Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol, Polisi Arddangosfeydd, Strategaeth Profiad Ymwelwyr, Strategaeth Datblygu Casgliadau, Strategaeth Dysgu a Chyfranogi. Gweler Atodiad 2 am restr o'r ffynonellau.

3. Nodau ac Amcanion

Wrth roi'r strategaeth hon ar waith, rydym yn gweithio tuag at bum nod strategol. Bydd angen mynd i'r afael â nifer o wahanol amcanion er mwyn cyrraedd y nod.

Dyma amlinelliad o'r amcanion, ac mae manylion y camau cyfatebol mewn Cynllun Gweithredu.

Nod 1: Sefydlu Amgueddfa Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau dwyieithog sy'n denu, yn dysgu ac yn difyrru		
Ymrwymiad Gweledigaeth: Profiad	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a darparu rhaglen o ddigwyddiadau proffil uchel unigol neu reolaidd
Ymrwymiad Gweledigaeth: Profiad	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu, cynnal a chroesawu dathliadau a digwyddiadau Cymunedol
Ymrwymiad Gweledigaeth: Profiad	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu, cynnal a chroesawu dathliadau a digwyddiadau Cenedlaethol
Ymrwymiad Gweledigaeth: Dysgu	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu, cynnal a chroesawu digwyddiadau addysgol
Nod 2: Cynyddu'r incwm a gynhyrchir trwy ddigwyddiadau		
Ymrwymiad Gweledigaeth: Ffynnu	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y defnyddir yr arferion cynllunio busnes gorau
Nod 3: Sefydlu brand Amgueddfa Cymru fel darparwr digwyddiadau		
Ymrwymiad Gweledigaeth: Ffynnu	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo ein rhaglenni digwyddiadau yn effeithiol
Nod 4: Cynnal a rhannu arferion gorau o ran rheoli a chynnal digwyddiadau		
Ymrwymiad Gweledigaeth: Ffynnu	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisïau a rhannu arferion gorau
Ymrwymiad Gweledigaeth: Cymryd rhan	Amcan	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu dulliau o gefnogi pobl a chymunedau i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2018-23. Ystyriwyd y camau yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael o ran amser staff a chyllidebau.

4. Casgliadau

Mae'r strategaeth hon yn rhoi cynllun pum mlynedd ar gyfer datblygu a chynnal digwyddiadau. Mae'n uchelgeisiol, gan nodi ein dyhead i sefydlu Amgueddfa Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau sy'n denu, yn dysgu ac yn difyrru gan wella ein henw da fel darparwr digwyddiadau pwysig yng Nghymru. Mae'n nodi ein pwrpas a chymau gweithredu clir er mwyn amrywio a chynyddu ein cynulleidfaoedd a chefnogi cyfranogiad gan y cyhoedd. Yn unol â chynllun incwm pum mlynedd Amgueddfa Cymru, mae'n cynnwys ffyrdd effeithiol o ddefnyddio adnoddau er mwyn cynyddu ac amrywio ein ffrydiau incwm trwy'r rhaglen ddigwyddiadau.

Atodiad 1: Staff a gymerodd ran yn y gweithdai

Bu staff o bob adran yn rhan o'r gweithdai canlynol:

- Gweithdai Cynllunio Digwyddiadau (Gorffennaf 2017, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru)
- Sesiynau Holi ac Ateb adrannol (Hydref 2017)
- Gweithdy Meini Prawf (Rhagfyr 2017)
- Ymgynghoriad y Grŵp Rhaglenni (Ebrill 2018)
- Gweithdy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Ebrill 2018)

Atodiad 2: Rhestr o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth

Elaine Heumann Gurian, *Civilising the Museum*, 2006

Green, L. 2017. *Why Don't They Come? Visitors on Low Income and the Myths around Admission Price*

Coleen Dillenschneider, 'Know Your Own Bone', blog and website

Nina Simon, *The Art of Relevance*

From Happy Hours To Fun Runs: How To Successfully Diversify The Visitor Experience (DATA)

Hubs for Human Connection: The Social Role of Cultural Organizations (DATA)

Admission Price is NOT a Primary Barrier for Cultural Center Visitation (DATA)

3 Important Lessons I Learned at my First Full-Time Museum Job

Culture 24 'A Culture of Lates', A report into the historic, current and potential role of UK museum Lates within the context of the night-time economy

Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru (2010-20), Llywodraeth Cymru

Polisi Iaith Gymraeg Amgueddfa Cymru <https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/>